



Heddlu • Police
DYFED-POWYS

Diogelu ein Cymuned - Safeguarding our Community



Meini Prawf Cymhwysedd

Oed	Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed o leiaf er mwyn gwneud cais. Nid oes terfyn oedran uwch ar gyfer gwneud cais, ond rhaid i iechyd ymgeiswyr fod yn dda.
Iechyd	Rhaid i ymgeiswyr fedru ymgymryd â dyletswyddau'n effeithiol yn gorfforol ac yn seicolegol. Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus lenwi holiadur meddygol a chael prawf meddygol a fydd yn cynnwys prawf llygaid. Bydd methu â bodloni'r safonau meddygol a golwg yn golygu na ellir penodi'r ymgeisydd. Mae manylion pellach ynglŷn â'r safonau golwg ar gael yn y nodiadau canllaw.
Addysg	Nid yw cymwysterau addysgol ffurfiol yn hanfodol, ond mae angen i ymgeiswyr ddangos bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r galluoedd priodol ar gyfer cyflawni rôl Cwnstabl Gwirfoddol. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr ddangos tystysgrifau arholiadau ar gyfer dibenion hyfforddi a datblygu.
Arian	<p>Os oes ymgeisydd wedi'i gofrestru'n fethdalwr ac nid yw'r dyledion methdalu wedi cael eu talu, ni allant wneud cais ar gyfer rôl Cwnstabl Gwirfoddol gyda ni hyd nes y bydd tair blynedd wedi mynd heibio ers talu'r ddyled.</p> <p>Mae gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddyledion, megis morgeisi, benthyciadau myfyrwyr neu fenthyciadau eraill a dyledion credyd/siop. Nid yw dyledion y gellir eu rheoli'n rhwystr i benodi.</p>
Cenedligrwydd a Phreswyliaeth	<p>Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer penodi, rhaid i ymgeiswyr fod yn ddinasyddion Prydain, neu'n aelodau o'r Ardaloedd Economaidd Ewropeaidd. Mae dinasyddion y Gymanwlad a gwladolion tramor hefyd yn gymwys i wneud cais, ond dim ond os ydyn nhw wedi byw yn y DU am o leiaf 3 blynedd (cyn ymgeisio) ac yn rhydd rhag cyfyngiadau.</p> <p>Os yw ymgeisydd yn syrthio o dan y meini prawf dinesydd y Gymanwlad neu feini prawf gwladolion tramor eraill, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth er mwyn cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw gyfyngiadau i aros yn y DU. Gan hynny, dylai ymgeiswyr anfon copi o'u pasbort sy'n dangos bod eu harhosiad yn y DU yn rhydd rhag cyfyngiadau.</p> <p>Ni ddylai ymgeiswyr anfon eu pasbort gyda'u cais.</p>
Cymeriad / Euogfarnau Troseddol	<p>Dim ond unigolion o gymeriad da fydd yn cael eu derbyn, a rhaid i chi barchu a chynnal y gyfraith. Os yw ymgeisydd wedi'i euogfarnu neu ei rybuddio am unrhyw drosedd, mae'n bosibl y byddant dal yn gymwys ar gyfer y rôl gan ddibynnu ar natur amgylchiadau'r drosedd. Fodd bynnag, ni chaiff ymgeisydd ddod yn Gwnstabl Gwirfoddol os fydd yn methu â datgelu manylion. Rhaid datgelu euogfarnau a rhybuddion ar gyfer unrhyw drosedd i dîm recriwtio gwirfoddolwyr yr heddlu yn syth.</p> <p>Bydd pob euogfarn/rhybudd (gan gynnwys unrhyw un sy'n hysbys i'r ymgeisydd) yn cael ei ystyried ar deilyngdod unigol, gan ystyried amgylchiadau'r drosedd, oed yr unigolyn, pryd y cyflawnwyd y drosedd, yr amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd, a thystiolaeth o gymeriad da ers y drosedd.</p>

<p>Buddiannau Sy'n Gwrthdaro / Anghymwys</p>	<p>Ni dderbynnir ceisiadau gan unigolion lle y mae posibilrwydd sylweddol y gallai hyn arwain at fuddiannau'n gwrthdaro yn eu bywyd proffesiynol neu rôl wirfoddol arall. Gan hynny, rhaid i ymgeiswyr roi manylion llawn am eu cyflogaeth bresennol neu waith gwirfoddol arall maen nhw'n gwneud fel rhan o'ch cais. Os ydyn ni'n ystyried bod buddiannau'n gwrthdaro, ni fyddwn ni'n medru symud ymlaen â'ch cais.</p> <p>Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod rhai swyddi a elwir yn "swyddi rhagwahardd". Rolau yw'r rhain lle y mae posibilrwydd y bydd gwrthdaro buddiannau'n codi rhwng eu rôl bresennol a rôl Cwnstabl Gwirfoddol.</p> <p>Mae rhai enghreifftiau perthnasol o swyddi rhagwahardd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith bar • Staff Drws • Lluoedd Arfog • Swyddogion Mewnfudo <p>Gan ddibynnu ar natur y gwaith, mae rolau lle y bydd hawl gennych gael eich penodi'n Gwnstabl Gwirfoddol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith diogelwch • Unrhyw rôl yn y sector cyfiawnder troseddol <p>Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ac os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â'r tîm recriwtio gwirfoddolwyr er mwyn trafod.</p> <p>Caiff ceisiadau gan aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd â 12 mis neu fwy cyn eu bod yn cael eu rhyddhau eu derbyn yn ôl disgrisiwn y Prif Gwnstabl. Dylid amgáu'r dyddiad rhyddhau arfaethedig.</p>
<p>Gweithdrefnau Fetio</p>	<p>Mae Cwnstabiliaid Gwirfoddol yn destun y Ddeddf Diogelu Data, Camddefnyddio Cyfrifiaduron, y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol a Pholisi Fetio Cenedlaethol ACPO 2012. Mae'n bwysig cynnal dibynadwyedd a chyfanrwydd unigolion, ac am y rheswm hwn, mae'r ymgeisydd, ei deulu ac eraill sy'n byw yn yr un cyfeiriad yn destun proses fetio priodol.</p> <p>Dilynir geiradaon ar gyfer dibenion fetio.</p>
<p>Y Blaid Genedlaethol Brydeinig (BNP)</p>	<p>Mae gan y Gwasanaeth Heddlu bolisi o wahardd eu staff a'u gwirfoddolwyr rhag dod yn aelodau o'r BNP neu sefydliad tebyg y mae eu nodau, eu hamcanion neu eu datganiadau'n groes i'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol. Os yw ymgeisydd yn aelod o'r BNP neu ei debyg, neu wedi bod yn aelod, bydd ei gais yn cael ei wrthod.</p>
<p>Tatŵs a Thyllau</p>	<p>Mae rhai tatŵs yn annerbyniol, er enghraifft, os ydynt yn peri tramgwydd i'r cyhoedd neu gydweithwyr a/neu yn gwahodd cythrudd, neu os ydynt yn cael eu hystyried yn anghwrtais, anllad, amrwd, hiliol, yn rhywiaethol, yn enwadol, yn homoffobig, yn dreisgar neu'n fygythiol. Nid yw tyllau neu datŵs eraill o reidrwydd yn rhwystr ar gyfer cael eich penodi, ond efallai y byddant yn effeithio ar y rolau y medrwch eu cyflawni os allant dramgwyddo eraill neu ddwyn anfri ar y Gwasanaeth Heddlu.</p> <p>Disgrifiwch unrhyw datŵs neu dyllau ar eich wyneb, gwddf, blaen eich breichiau neu ddwylo ar y ffurflen gais a darparwch 2 ffotograff o bob tatŵ. Rhaid i'r ffotograff cyntaf fod yn ffotograff agos o'r tatŵs. Rhaid i'r ail ffotograff ddangos yn glir leoliad y tatŵ ar eich corff. Sicrhewch eich bod chi'n disgrifio unrhyw arwyddocâd personol (os yn berthnasol) a rhowch gyfieithiad.</p>